# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Medi 2016

Amser: 09.00 - 10.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3707

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Jon Antoniazzi (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Katie Wyatt<br>Hannah Johnson |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Blaenraglen waith

2.1a Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.

### 2.2 Llythyr gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch cylch gwaith dros dro y Pwyllgor

2.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch cylch gwaith dros dro y Pwyllgor.

### 2.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

2.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

### 2.4 Llythyr gan y Llywydd ynghylch datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn

2.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd ynghylch datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn.

### 2.5 Llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru

2.5a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Craffu ar Fil Cymru Llywodraeth y DU

4.1 Trafododd y Pwyllgor Fil Cymru Llywodraeth y DU a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyda'i farn ar y Bil. Caiff ymateb drafft ei drafod yn y cyfarfod ar 21 Medi.

## 5 Ymgynghoriad ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 - Y wybodaeth ddiweddaraf a'r camau nesaf

5.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf ar gyfer y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a chytunodd arnynt. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sydd newydd eu penodi i ofyn am fanylion blaenraglenni gwaith y Comisiynwyr ac unrhyw waith sydd wedi'i gynllunio sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod.